



Buddsoddi mewn iechyd meddwl:

Adolygiad cwmpasu o werth cymdeithasol ymyriadau cysylltiedig ag iechyd meddwl

Pwrpas:

Mae'r gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Cydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant (WHO CC) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cynnal cyfres o adolygiadau cwmpasu systematig o lenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd i goladu tystiolaeth ar **werth cymdeithasol ymyriadau iechyd a llesiant meddwl**.

Cynulleidfa darged:

gweithwyr iechyd y cyhoedd proffesiynol, llunwyr a chomisiynwyr polisi cyhoeddus, swyddogion cyllid cyhoeddus a'r byd academiaidd.

Beth yw gwerth cymdeithasol?

Gwerth cymdeithasol yw "meintoli'r pwysigrwydd cymharol y mae pobl yn ei roi ar y newidiadau y maent yn eu profi yn eu bywydau" [1]. Gellir gwreiddio Gwerth Cymdeithasol yn:



Caffael a
chomisiynu



Buddsoddi a
blaenoriaethu
adnoddau/
cyllidebau



Aseu a
gwerthuso

Pam mae gwerth cymdeithasol yn bwysig?

- Mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r angen i ehangu'r dull 'gwerth am arian' traddodiadol a dod o hyd i ffyrdd o nodi a mesur canlyniadau, effeithiau a gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach sefydliadol.
- Mae heriau rhyngwladol fel COVID-19 wedi amlygu canlyniadau diffyg adnoddau ym maes iechyd y cyhoedd ac wedi amlygu'r gyd-ddibyniaeth glir rhwng iechyd y boblogaeth, llesiant cymdeithasol a'r economi.
- Mae'r achos dros fuddsoddiad wedi'i dargedu yn llesiant pobl, tegwch iechyd ac atal yn gryfach nag erioed.
- Mae cyfle i ymgorffori canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau a blaenoriaethu cyllidebau.

Sut ydyn ni'n mesur gwerth cymdeithasol?

Mae **Enillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI)** yn fframwaith mesur sy'n seiliedig ar ganlyniadau o egwyddorion a all gefnogi sefydliadau i ddeall, dal a meintoli'r gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y maent yn ei greu.



Nod:

Mae'r briff tystiolaeth hwn yn amlinellu **adolygiad cwmpasu o lenyddiaeth a adolygwyd gan gymheiriaid a llenyddiaeth lwyd i nodi astudiaethau SROI o ymyriadau iechyd meddwl mewn gwledydd incwm uchel a chanolig** [2]. Defnyddiwyd meini prawf asesu ansawdd Krlev et al [3] i asesu ansawdd yr holl astudiaethau a gynhwyswyd.

[1] Llywodraeth Cymru (2019). [Gwerthfawrogi ein Hiechyd](#).


[2] Kadel et al. (2022). [Social Return on Investment \(SROI\) of mental health related interventions – A scoping review](#).

[3] Krlev et al. (2013). [Social Return on Investment \(SROI\): State-of-the-Art and Perspectives, A Meta-Analysis of practice in Social Return on Investment \(SROI\) studies published 2002-2012](#).

Cefndir a chyd-destun:

Problemau iechyd meddwl (MHPs) yw un o brif achosion afiechyd ac anabledd ledled y byd.

Bydd **un o bob pedwar** o bobl yn y DU yn profi MHPs ar ryw adeg yn eu bywydau, a bydd llawer ohonynt yn mynd heb ddiagnosis.



Mae MHPs yn **un o brif achosion afiechyd ac anabledd ledled y byd**. Ymhlith llawer o wledydd â lefelau incwm amrywiol mae anghydbwysedd mawr yn bodoli rhwng baich afiechyd meddwl ac ariannu a darparu gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae MHPs yn gyfranwyr mawr at y **baich afiechyd byd-eang**.



Yn fyd-eang, mae gan MHPs **gyfran o 14% o flynyddoedd yn byw ag anabledd** [4]*.



Yn fyd-eang, roedd MHPs yn **4.9% o flynyddoedd bywyd wedi'u haddasu yn ôl anabledd** yn 2018 [4]*.



Bydd MHPs yn costio **\$16 triliwn i'r economi fyd-eang** rhwng 2010 a 2030 [5].



Bydd MHPs yn costio rhwng **£70-£100 biliwn y flwyddyn i economi'r DU** [6].

Mae MHPs yn achosi **canlyniadau economaidd mawr**.



Mae MHPs yn costio rhwng **£33-£42 biliwn y flwyddyn** i gyflogwyr yn y DU [7].

Mae nifer o ymyriadau wedi'u cynnal i wella iechyd meddwl a llesiant ar draws cwrs bywyd. Drwy anelu at leihau nifer yr achosion ac effaith problemau iechyd meddwl ar y boblogaeth, gall yr ymyriadau hyn gynhyrchu cyfradd uchel o enillion diriaethol ac anniriaethol ar gyfer ystod o randdeiliaid ar draws yr economi a chymdeithas.

[4] Institute for Health Metrics and Evaluation (IHME, 2018). [Findings from the Global Burden of Disease Study 2017](#).

*Mae blynyddoedd bywyd wedi'u haddasu ar gyfer anabledd (DALYs): yn cynrychioli'r hyn sy'n cyfateb i flwyddyn o iechyd llawn. DALYs ar gyfer clefyd neu gyflwr iechyd yw swm y blynyddoedd o fywyd a gollwyd oherwydd marwolaethau cynamserol (YLLs) a'r blynyddoedd o fyw gydag anabledd (YLDs) oherwydd cyffredinrwydd yr afiechyd neu gyflwr iechyd mewn poblogaeth.

[5] Patel et al. (2018). [The Lancet Commission on global mental health and sustainable development](#).

[6] Department of Health and Social Care (2013). [Annual Report of the Chief Medical Officer 2013: Public Mental Health Priorities: Investing in the Evidence](#).

[7] Deloitte MCS Limited (2017). [Mental Health and Employers: The Case for Investment](#).

Prif ganfyddiadau:

O'r astudiaethau iechyd meddwl a nodwyd, roedd y cymarebau SROI a adroddwyd yn amrywio o

£0.79 i £28

o werth a grëwyd fesul £1 a fuddsoddiwyd.

- At ei gilydd, cafodd **42 o astudiaethau** (gydag 81% wedi'u nodi fel rhai o ansawdd uchel) eu cynnwys yn yr adolygiad hwn.
- Nodwyd 3 o'r llenyddiaeth academiaidd a 39 o ffynonellau llenyddiaeth lwyd.
- Mae'r adolygiad hwn yn ymgorffori astudiaethau gydag **ymyriad iechyd meddwl neu astudiaethau a oedd yn cynnwys canlyniadau iechyd a/neu lesiant** wrth werthuso gwerth cymdeithasol yr ymyriad.
- Gellir defnyddio cymhwys SROI i werthuso manteision cymdeithasol ehangach yr ymyriadau iechyd meddwl **i lywio penderfyniadau polisi a blaenoriaethu buddsoddiad** mewn iechyd meddwl ac iechyd y cyhoedd ehangach.
- **Mae angen ymchwil pellach i ddeall a oes dulliau eraill sy'n bodoli eisoes** a allai ddarparu tystiolaeth gadarn o ran nodi, mesur ac adrodd ar fuddion/canlyniadau ehangach, effaith a gwerth cymdeithasol ymyriadau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a llesiant.
- Mae angen mwy o ymchwil SROI ym maes iechyd y cyhoedd i ehangu'r sylfaen dystiolaeth a llywio'n well y broses o flaenoriaethu buddsoddiad, penderfyniadau comisiynu/cyllid a gwella rhaglenni.

Engbreiffitiau**

Artist for mental health mindfulness

Darparodd yr ymyriad hwn yn 2020 yng Nghnada [8] sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar i artistiaid. Crëwyd cyfanswm o £685 o fuddsoddiad:



£4,435
Gwerth
Cymdeithasol

- Iechyd meddwl gwell: **£1,617**
- Canlyniadau addysgol gwell: **£983**
- Iechyd corfforol gwell: **£284**
- Perthnasoedd gwell: **£565**
- Arbedion adnoddau'r llywodraeth: **£987**

Roedd yr SROI a adroddwyd yn **£6.48 o werth a grëwyd fesul £1 a fuddsoddiwyd.**

Highway House: Homeless Shelter

Nod yr ymyriad hwn yn 2015 yn Lloegr [9] oedd darparu llety a chymorth dros dro i bobl ddigartref (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i gymorth emosiynol ac iechyd meddwl). Crëwyd cyfanswm o £94,910 o fuddsoddiad:



£537,662
Gwerth
Cymdeithasol

- Arbedion cost uned (ee, GIG): **£114,773**
- Canlyniadau addysgol gwell: **£82,787**
- Iechyd meddwl gwell: **£59,869**
- Iechyd corfforol gwell: **£25,095**
- Adnoddau'r Llywodraeth: **£196,250**
- Buddion economaidd: **£67,583**
- Canlyniadau negyddol: **-£8,696**

Roedd yr SROI a adroddwyd yn **£5.67 o werth a grëwyd fesul £1 a fuddsoddiwyd.**

**Sylwer nid yw enghreifftiau wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant ac nid ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer cymharu.

[8] Robinson S. (2020). [Artists for Mental Health Mindfulness Project: Social Return on Investment Evaluation](#).

[9] Bertotti, M. (2016). [Highway House Social Return on Investment Report](#).

Well-Being Programme

Roedd yr ymyriad hwn yn 2014 yn Lloegr [10] yn darparu rhaglen llesiant ar gyfer pobl sy'n byw gyda chyflyrau emosiynol a chorfforol hirdymor. Crëwyd cyfanswm o £210,546 o fuddsoddiad:



£32,267
Gwerth
Cymdeithasol

- Iechyd a llesiant meddwl gwell: **£16,196**
- Canlyniadau addysgol gwell: **£164**
- Iechyd corfforol gwell: **£9,434**
- Mynediad at wasanaethau: **£4,004**
- Newid mewn incwm: **£6,410**
- Perthnasoedd: **£6,059**

Roedd yr SROI a adroddwyd yn **£3.74 o werth a grëwyd fesul £1 a fuddsoddiwyd.**

Group Walks

Trefnodd yr ymyriad hwn yn 2011 yn yr Alban [11] deithiau cerdded ar gyfer grwpiau amrywiol o randdeiliaid. Crëwyd cyfanswm o £12,750.00 o fuddsoddiad:



£74,749
Gwerth
Cymdeithasol

- Iechyd a llesiant meddwl gwell: **£50,723**
- Canlyniadau addysgol gwell: **£2,512**
- Iechyd corfforol gwell: **£7,006**
- Gwell perthnasoedd: **£4,255**
- Arbedion adnoddau'r GIG: **£7,558**
- Buddion economaidd: **£2,632.29**


Roedd yr SROI a adroddwyd yn **£5.86 o werth a grëwyd fesul £1 a fuddsoddiwyd.**

[10] Tokarova, Z. (2014). [A social return on investment study of Wellbeing Works' Wellbeing Programme.](#)

[11] Carrick, K., & Lindhof, J. (2011). [The Value of Walking: A Social Return on Investment Study of a Walking Project.](#) England: Paths for All.

Mae'r gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, WHO CC yn creu portffolio amrywiol ac arloesol o adnoddau ac offer i gefnogi'r achos dros fuddsoddiad cynaliadwy, ar sail tystiolaeth a gwerthoedd, mewn iechyd cyhoeddus a thegwch iechyd:

Lansio Cronfa Ddata ac Efelychydd Gwerth Cymdeithasol (SVDS) ar gyfer Iechyd Cyhoeddus (2022): offeryn arloesol cyntaf o'i fath, gan alluogi storio, defnyddio a thrin tystiolaeth a data economeg iechyd (Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad) yn rhyngweithiol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau, blaenoriaethu cyllidebau a gwella rhaglenni.



Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r sefydliad iechyd cyhoeddus cenedlaethol i Gymru sy'n darparu cyngor a gwasanaethau iechyd cyhoeddus proffesiynol, annibynnol i ddiogelu, gwella a hyrwyddo iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd. Ein diben yw 'gweithio i sicrhau dyfodol iachach i Gymru'.

ISBN 978-1-83766-275-3 © 2025 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Polisi a Iechyd Rhyngwladol Canolfan Gydwethredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llawr 5, Rhif 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BZ

Gellir atgynhyrchu deunydd a gynhwysir yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL)

www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod ei fod yn cael ei wneud mor gywir ac nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Cydnabyddiaeth i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w datgan.

Mae hawlfraint yn y trefniant, y dyluniad a'r cynllun teipograffyddol yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.